**PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL HSS-05-01 (p3)**

**Dyddiad:** **14 Mawrth 2001**

**Lleoliad:** **Y stafell Bwyllgora (rhif i'w gadarnhau)**

**Teitl:** **Canlyniadau cychwynnol yr ymgynghori ynghylch Strategaeth Iechyd Meddwl**

**Diben y Papur**

Ffrwyth cyfarfod y Pwyllgor ar 24 Ionawr yw’r papur hwn. Yn ystod y cyfarfod cafwyd "papur i’w nodi" yn rhoi canlyniadau cychwynnol yr ymgynghori ar fersiwn drafft Strategaeth Iechyd Meddwl Oedolion Cymru Gyfan ar gyfer oedolion sydd mewn oed gweithio.

**Crynodeb**

Taniodd yr ymarfer ymgynghori ar strategaeth ddrafft y Grwp Ymgynghorol annibynnol drafodaeth a fu, yn ôl llawer o’r ymatebwyr, yn un o’r trafodaethau mwyaf pellgyrhaeddol a gafwyd erioed yng Nghymru ynghylch iechyd meddwl. Yn unol â’r disgwyl, cafwyd amryw helaeth o sylwadau ond o ddadansoddi’r ymatebion mae’n amlwg fod yna gefnogaeth gref i rai elfennau allweddol y gellir eu meithrin i greu Strategaeth derfynol i Gymru, sef:

- **Ategir yn llawn yr egwyddorion cyffredinol sef "Cyfiawnder, Nerthu, Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd"**
- **Mae'r pwyslais cryf ar gyfraniad y defnyddiwr a’r gofalwr yn hir-ddisgwyliedig ac yn fawr ei angen**
- **Da yw gweld bod y broses o hybu iechyd meddwl yn cael lle amlwg**
- **Cefnogaeth gref i'r argymhelliad y dylai'r Llywodraeth ymdrin yn systematig â phroblem y stigma sydd ynghlwm wrth salwch meddwl**
- **Rhoddir sylw amlwg i'r angen am well cyd-gynllunio yn y drafft ac mae angen cynnal ac atgyfnerthu hynny yn y ddogfen derfynol**
- **Mae'r drafft yn gosod glasbrint ar gyfer gwelliannau sy'n seiliedig ar systemau y gwyddom eu bod yn effeithiol yng Nghymru ac y gellir eu cyflawni’n llawn cyn pen 10 mlynedd nesaf oes y Strategaeth newydd.**

**Y Camau Nesaf**

Mae swyddogion ar fin cwblhau drafft diwygiedig sy'n ymgorffori’r llu o sylwadau adeiladol a wnaed gan ymatebwyr. Cyflwynir hwnnw gerbron y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn fuan gyda'r bwriad o gyhoeddi'r Strategaeth derfynol fel cyfarwyddyd yn fuan ar ôl hynny. Bydd y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol i Gymru yn dilyn yn fuan ar ôl hynny ac, at ei gilydd, dylai'r ddwy ddogfen ddarparu templed i greu gwelliannau radical i'r gwasanaethau yng Nghymru.

Hefyd, mae angen i ni roi ystyriaeth i'r cynigion a gafwyd yn y Papur Gwyn ynghylch diwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl a gyhoeddwyd ar ôl i’r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Yr ydym mewn cysylltiad agos â’r tîm sy’n paratoi Mesurau yn yr Adran Iechyd ac fe’n cynrychiolir ar lefel uchel yn y Bwrdd Projectau sy’n bwrw ymlaen â’r gwaith hwn. Mae angen i ni roi cydnabyddiaeth i effaith y prif gronfeydd cyfalaf a refeniw a fu’n llifo i'r gwasanaethau

iechyd meddwl yng Nghymru yn ystod 2000 ond na fyddai wedi cael cyfle i ddylanwadu ar yr ymateb a gafwyd i'r drafft.

**Cefndir**

Dangosodd gwaith ymchwil a wnaed gan y Swyddfa Gymreig bod yna gonsensws cyffredinol yng Nghymru o blaid adolygu strategaeth 1989 yng nghyd-destun amgylchiadau heddiw. Derbyniodd y Cynulliad Cenedlaethol y farn honno. Sefydlwyd Grwp Ymgynghorol gyda'r aelodau'n dod o wahanol grwpiau perthnasol a'r cylch gwaith oedd cynhyrchu dogfen strategaeth ddrafft ar gyfer ymgynghori. Ar ôl ei diwygio yng ngoleuni'r ymgynghori, byddai dogfen Strategaeth derfynol yn cael ei chyhoeddi fel cyfarwyddyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Derbyniodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol adroddiad cychwynnol gan y Grwp Ymgynghorol ym mis Ionawr 2000 a chymeradwywyd cyfeiriad y Grwp. Ers hynny, aeth gwaith rhagddo i roi cig ar esgyrn y cynigion hyn ac i gynhyrchu'r ddogfen strategaeth ddrafft. Dechreuodd yr ymgynghori ar 29 Gorffennaf 2000 a daeth i ben ar 17 Tachwedd 2000. Oherwydd y galw am y ddogfen bu’n rhaid ei hailargraffu sawl gwaith. Yr oedd y drafft ar gael hefyd ar y rhyngrwyd ac ar y fewnrwyd. Yn ogystal, ariannodd y Cynulliad Cenedlaethol gyfres o gynadleddau ymgynghori a drefnwyd gan Mind Cymru i sicrhau bod modd i ddefnyddwyr a gofalwyr fynegi eu sylwadau.

**Canlyniadau’r ymgynghori**

Mae dadansoddiad o’r ymatebion wedi’i ddosbarthu ar wahân i’r aelodau. Daeth 115 ymateb i law ac yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn fanwl iawn. Yr oedd ymateb Mind Cymru, er enghraifft, yn fwy na 100 o dudalennau. Er bod y dadansoddi’n parhau, mae rhai o’r prif faterion eisoes yn eithaf clir fel a nodir yn y Crynodeb uchod.

Aethpwyd i’r afael â phryderon yr ymatebwyr hynny a fynegodd amheuon arwyddocaol ynghylch rhannau o’r strategaeth ddrafft mewn cyfarfodydd ychwanegol â swyddogion lle cafodd y sylwadau hyn eu harchwilio a’u hegluro’n llawn.

**Rhoi’r strategaeth ar waith**

Yr ydym eisoes wedi dechrau rhoi’r strategaeth ar waith. Mae awdurdodau wedi gweld themâu’r strategaeth ac wedi dechrau gweithredu. Er enghraifft, mae Timau Iechyd Meddwl Cymunedol eisoes yn cael eu cryfhau mewn rhai ardaloedd ac mae o leiaf un Awdurdod Iechyd yn dyrannu adnoddau ychwanegol i’r sector gwirfoddol.

Bu’n bosibl cymryd y camau cyntaf hyn oherwydd y £10m ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y flwyddyn ariannol hon a’r nesaf. Yn yr un modd mae’r arian cyfalaf (£32m) a ddarparwyd yn 2000/01 wedi hwyluso un arall o nodau allweddol y strategaeth, sef cau’r holl hen sefydliadau mawr, a bydd hyn yn helpu i leddfu’r pwysau ar welyau cleifion seiciatrig fforensig.

Cymeradwyodd y broses ymgynghori argymhelliad y drafft y dylid sefydlu Grwp Gweithredu i oruchwylio rhoi’r Strategaeth ar waith. Mae argymhellion ar gynrychiolaeth fewnol ac allanol yn cael eu llunio gan swyddogion.

**Cydymffurfio**

Y Cynulliad Cenedlaethol sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi sy'n rheoli darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl o fewn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

yng Nghymru.

**Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r sefyllfa.

**Cyswllt**

Mae'n bosibl cysylltu â John Sweeney yn yr Is-adran Iechyd Sylfaenol a Chymunedol neu Dr Sarah Watkins, Gweithwyr Proffesiynol ym maes Iechyd, i gael rhagor o wybodaeth, os bydd angen.